OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 1076

## Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) (Diwygio) 2022

**Diwygio Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 6 (diogelwch trydanol)—

(a) ym mharagraff (3), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle "7 niwrnod", rhodder "14 o ddiwrnodau";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "7 niwrnod", rhodder "14 o ddiwrnodau";

(c) ym mharagraff (5), yn lle "7 niwrnod", rhodder "14 o ddiwrnodau";

(d) ym mharagraff (8), yn y diffiniad o "safonau diogelwch trydanol", yn lle "BS 7671:2018+A1:2020", rhodder "BS 7671:2018+A2:2022(**2**)".

(3) Yn rheoliad 7 (cymhwyso i gontractau wedi eu trosi), ym mharagraff (5), ym mharagraff (4) a amnewidiwyd, yn lle "7 niwrnod", rhodder "14 o ddiwrnodau".

(**1**) O.S. 2022/6 (Cy. 4).
(**2**) BS 7671:2018 (ISBN-13: 978-1-78561-170-4) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018, fel y'i cywirwyd gan gorigendwm dyddiedig Rhagfyr 2018; a ddiwygiwyd gan Ddiwygiad 1:2020 a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2020 (ISBN-13: 978-1-83953-193-4); a gywirwyd gan gorigendwm i BS 7671:2018+A1:2020 dyddiedig Mai 2020; ac a ddiwygiwyd gan Ddiwygiad 2 i BS 7671:2018+A2:2022. Gellir cael copïau gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg yn: The Institution of Engineering and Technology, Michael Faraday House, Six Hill Way, Stevenage, SG1 2AY.